CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

*Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd am 7pm ar 29 Mehefin 2020 yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cymru 2020.*

Roedd y Cod Ymddygiad a'r Gorchmynion Sefydlog ac Ariannol yn gymwys yn ystod y cyfarfod.

---

Presennol: Cadeirydd: Cyng Ken Symmons: Cyngr Steve Kings, Amanda Edwards, Hywel Davies, Nicky Redmond, Laura Holder, Iwan Davies

CS Clive Davies

Clerc

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod rhithwir cyntaf y Cyngor.

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Dim

**2. Datgan Diddordeb ar faterion yn codi o'r Agenda**
Dim

**3. Cadarnhau Trefn yr Agenda** a nodi unrhyw eitemau y gellid eu datrys ar gyfer sesiwn gyfrinachol
Derbyniwyd yr agenda fel y cafodd ei chyflwyno. Dywedodd y Clerc y gallai gyflwyno gwybodaeth gyfrinachol yn ystod y drafodaeth am y man chwarae.

**4. Cadarnhau Cofnodion 2.03.20**
Cynigiodd y Cyng S Kings y dylid derbyn y cofnodion fel cofnod cywir, eiliwyd gan y Cyng N Redmond, a chytunwyd.

**5. Ceisiadau Cynllunio**
A200337 Glanhelyg, Llechryd, Aberteifi SA43 2NE. Cefnogwyd fel 'barn y Cynghorwyr' yn ystod y cyfnod clo.

A200397 Llys-teg, Llangoedmor, SA43 2LJ
Newid defnydd modurdy yn salon gwallt
Nid oedd Cyngor Cymdeithas Llangoedmor yn gwrthwynebu'r cais.

Mae dogfennau cynllunio i'w gweld yn: https://www.ceredigion.gov.uk/resident/planning-building-control-and-sustainable-drainage-body-sab/planning-building-control/

**6. Adroddiad y Cynghorydd Sir**

Dywedodd y CS Clive Davies fod y Cyngor Sir wedi lansio cynllun adfer tymor hir a fyddai'n cael ei ddiweddaru bob wythnos. Dylai'r gwaith ar Bont Llechryd fod wedi'i orffen erbyn diwedd Awst. Dywedodd y gallai arian fod ar gael ar gyfer astudiaeth ymarferoldeb o ffordd rhwng Llechryd ac Aberteifi.

**7. Cyllid a Gweinyddu**

**7.1 Taliadau Misol**

*7.1.1 Cyfrifon wedi'u talu yn ôl y contract*

| Talai | Am | banc | |
|---|---|---|---|
| 23.03.20 | | | |
| LAS | DU | TBA | |
| 6.4.20 | | | |
| HARC | | 72.60 | |
| S E Davies | Cyflog | | |
| 311.09 | | | |
| S E Davies | Swyddfa yn y cartref 25/post 1 5 .60 | 40.60 | |
| Mr E Rees | Glanhau'r bloc toiledau a chodi sbwriel am y tro olaf | | 162.22 |
| Trethi Cyngor Sir Ceredigion – bloc toiledau | | 497.55 | |
| SSE Electricity - | bloc toiledau | 59.47 | |
| Neuadd y Cwrwgl | Hurio'r Neuadd | 16.00 | |
| Mathew Penny | Goleuadau'r Nadolig | 90.00 | |
| Mary Jones | Amrywiol gyfieithiadau | 236.25 | |
| Menig Arjay Factors | - codi sbwriel | 13.99 | |
| 23.04.20 | | | |
| LAS | DU | 39.96 | |
| 5.05.20 | | | |
| | | HARC 76.60 | |
| S E Davies | Cyflog | 307.09 | |
| S E Davies | Swyddfa yn y Cartref 25 | 25.00 | |
| Mr E Rees | Sbwriel | 30.00 | |
| EMI Jones | Gwaith Cyfieithu | 236.25 | |
| A Edwards | Ffôn | 14.99 | |
| N Redmond | Llinynnau | 27.72 | |
| 30.05.20 | | | |
| LAS | DU | 22.74 | |
| 2.6.20 | | | |

| | | |
|---|---|---|
| | E Rees Sbwriel a chysgodfan bysiau | 106.00 |
| HARC | | 76.80 |
| S E Davies | Cyflog | 306.89 |
| S E Davies | Swyddfa yn y Cartref 25 | 25.00 |
| BHIB | Yswiriant | 1,233.43 |

Nodwyd.

*7.1.2 Bydd cyfrifon sy'n daladwy ar gyfer Mehefin yn cael eu talu yn ôl y contract ar 6.7.20*

*7.1.3 Cymodi gan y banc master 2020*
Cytunwyd i dderbyn cymodi'r banc fel y cafodd ei gyflwyno.

**7.2 Cyfrifon Diwedd Blwyddyn i'w Cymeradwyo**
*7.2.1 Asesiad risg ariannol*
*7.2.2 Cofrestr asedion ar 31.3.20*
*7.2.3 19.20 Arolwg o'r gyllideb*
*7.2.4 Mantolen 19-20 (yn dangos cronfeydd wrth gefn)*
Cytunwyd i dderbyn y dogfennau uchod fel y cawsant eu cyflwyno.

*7.2.5 Adroddiad archwiliad mewnol a thudalennau ar gyfer AGAR*
Nodwyd.

*7.2.6 Ffurflen flynyddol esboniad o amrywiadau*
Cytunwyd i dderbyn y ddogfen uchod fel y cafodd ei chyflwyno.

*7.2.7 2020 AGAR*
Gan fod y Datganiadau Llywodraethiant Blynyddol wedi eu cytuno (rhannau 1 a 2), derbyniwyd y Ffurflen Flynyddol fel y cafodd ei chyflwyno.
GWEITHREDU: Y Cadeirydd i'w llofnodi

*7.**3 Contract y Clerc a'r ddogfen Disgyblaeth a Chwynion – Cyng S Kings***
Cytunwyd i dderbyn y dogfennau fel y cawsant eu cyflwyno.
GWEITHREDU: Y Cadeirydd a'r Clerc i lofnodi'r Contract ar y cyfle nesaf.

***7.4 Cofrestrfa Tir***
Nid oedd y Clerc wedi cael ymateb ar gyfer unrhyw un o'r cyfreithwyr roedd wedi cysylltu â nhw cyn y cyfnod clo. Byddai'n ceisio eto.
GWEITHREDU: Cysylltu â'r cyfreithwyr GAN: Y Clerc

**8. Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
***8.1 Croes-y-Llan***
Nodwyd bod y gwaith gwaredu gwastraff llaeth presennol wedi ei drwyddedu. Roedd pryder o hyd am faint y tanceri yn defnyddio'r ffordd gefn un-lôn gan mwyaf a'r perygl pan oedd loriau'n

troi ar draws yr A484. Nid oedd dim ymateb wedi dod oddi wrth CSC yn dilyn y pryderon cychwynnol a fynegwyd gan y CC.
GWEITHREDU: Cysylltu â CSC eto GAN: Y Clerc a'r CS Clive Davies

***8.2 Llwybrau troed***
Ar ôl trafodaeth cytunwyd i baratoi dogfen syml yn dangos manylion sylfaenol y llwybrau posibl ar gael rhwng Llechryd ac Aberteifi. Deallid y gallai arian fod ar gael ar gyfer astudiaeth posibilrwydd, ond roedd angen asesu ewyllys y CC a'r cyhoedd i wneud hyn.
GWEITHREDU: Cyngr S Kings, N Redmond, A Edwards gyda chymorth y Clerc yn ôl yr angen i weithio ar yr adroddiad.

Dywedodd y Cadeirydd y gallai fod ganddo ddiddordeb i'w ddatgelu gan ddibynnu ar y llwybrau a fyddai'n cael eu harchwilio.

**9. Mwynderau**

***9.1 Bloc Toiledau***
Cytunwyd i adolygu agoriad posibl y bloc toiledau ym mhob cyfarfod misol. Roedd Mr E Rees wedi rhoi rhybudd am y contract glanhau oherwydd ei iechyd. Roedd yn barod i barhau i glirio sbwriel a gwacau biniau ddwywaith yr wythnos nes byddai'r Cyngor yn penodi contractiwr newydd.
GWEITHREDU: Eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf GAN: Y Clerc

***9.2 Lle Chwarae***
Gwaith ar eiddo yn ffinio â'r lle chwarae
Mynegwyd gofid nad oedd Tai Ceredigion wedi cysylltu â'r Cyngor, fel Ymddiriedolwr y lle chwarae, am ganiatâd cyn dechrau gweithio. Deallid bod yr allwedd wedi ei chael gan Gynghorydd. Roedd clawdd sylweddol wedi ei dynnu i lawr yn y lle chwarae a ffens wedi ei chodi heb ganiatâd. Cytunwyd na ddylai'r Cynghorwyr drafod gwaith gyda'r contractwyr tan y cyfarfod safle.
GWEITHREDU: Dweud wrth Tai Ceredigion y dylid cael caniatâd gan yr Ymddiriedolwyr fel corff. Gwahodd cynrychiolwyr Tai Ceredigion i gyfarfod safle i fynegi pryderon am y gwaith GAN: Y Clerc

**10. Digwyddiadau**

***10.2 Sul y Cofio***
Cytunwyd i holi'r Parch. A Kent am bosibilrwydd cael gwasanaeth byr yn yr awyr agored yn yr Hen Eglwys.
GWEITHREDU: Cysylltu â'r Parch. Kent GAN: Y Clerc

**11. Gohebiaeth (i gynnwys dogfennau ymgynghori na chynhwysir dan bennawd arall)**
Delir â hyn dan benawdau'r agenda.

**12. Materion Personol - Cyfnewid Gwybodaeth gan Gynghorwyr**
Nodwyd bod ysgall yn tyfu drwy'r ffens derfyn yn y cae chwarae.

GWEITHREDU: Cysylltu â'r contractiwr GAN: Y Clerc

Roedd baw cŵn yn broblem eto yn y cae chwarae. Nodwyd y gellid gwahodd y warden cŵn i ymweld (er mai cyfyngedig oedd ei wasanaeth).

Dywedodd y CS Clive Davies nad oedd ganddo eto ddim gwybodaeth pryd fyddai'r goleuadau taffig yn cael eu tynnu i lawr ar y ffordd i Aberteifi o Lechryd ar yr A484.

Mynegwyd pryder bod y gwasanaeth bws wedi ei gwtogi oherwydd COVID. Gyda'r symudiad i gael pobl yn ôl i'r gwaith, nid oedd y bws cyntaf i Aberteifi am 9.30 yn helpu pobl heb gludiant pan fyddai angen mynd i'r dref.
GWEITHREDU: Cysylltu â'r Brodyr Richards GAN: Y Clerc

**13. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 3.08.20**

Roedd y CS Clive Davies wedi dweud, oherwydd gwrthdaro amserau, na fyddai'n gallu bod yn drefnydd Zoom ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor oni fyddai naill ai'r Ferwig neu Langoedmor yn cytuno i newid eu dyddiad cyfarfod o'r nos Lun cyntaf yn y mis. Roedd y Ferwig wedi cysylltu â'r Clerc i ddweud y byddent yn fodlon newid dyddiad eu cyfarfod. Nodwyd hynny gyda diolch.
GWEITHREDU: Cysylltu â'r Ferwig GAN: Y Clerc

*Gan nad oedd dim busnes pellach i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.49 pm*